# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 12 Chwefror 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 189(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Darparu Gofal Heb ei Drefnu yn ystod y Gaeaf

(45 munud)

## 4 Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig, Ffioedd a Ffioedd am Geisiadau Tybiedig) (Cymru) (Diwygio) 2019

(15 munud)

**NDM6963** - Rebecca Evans (Gwŷr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig, Ffioedd a Ffioedd am Geisiadau Tybiedig) (Cymru) (Diwygio) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Ionawr 2019.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Deddfwriaethol a Chyfansoddiadol

## 5 Dadl: Setliad yr Heddlu 2019-20

(60 munud)

**NDM6960** - Rebecca Evans (Gwŷr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2019-20 (Setliad Terfynol - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2019.

## 6 Dadl: Yr Adroddiad Blynyddol ar Gamddefnyddio Sylweddau

(60 munud)

**NDM6961** - Rebecca Evans (Gwŷr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, fel yr amlygir yn Adroddiad Blynyddol ar Gamddefnyddio Sylweddau a Rhagolwg Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2018).

Adroddiad Blynyddol ar Gamddefnyddio Sylweddau a Rhagolwg 2018

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu fel pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau a marwolaethau sy'n benodol gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi sylw i'r angen am adsefydlu defnyddwyr cyffuriau ac alcohol ar sail preswyl haen 4 yng Nghymru.

**Gwelliant 2** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn nodi adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 'Adolygiad o wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru' ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r anghysonderau rhwng ystadegau swyddogol ar amseroedd aros, a phrofiadau amrywiol y bobl y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn.

Adolygiad o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru

**Gwelliant 3** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r aros hir am wasanaethau cwnsela a gwasanaethau atal ail bwl o salwch, y cyfeirir atynt yn adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**Gwelliant 4** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod creu trosedd o gamddefnyddio rhai sylweddau yn ychwanegu at y niwed a gaiff ei achosi gan ddefnydd o'r fath, yn gwaethygu'r stigma, ac yn atal pobl sy'n gaeth rhag gwella'n llwyr, ac yn credu, yn hytrach, y dylid ystyried mai mater iechyd yw camddefnyddio sylweddau, ac mai lleihau niwed yw'r brif amcan.

## 7 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 13 Chwefror 2019